OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 2193

# Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Cymru) 2001

## RHAN II

## DARPARIAETHAU CYFFREDINOL

### Swyddogaethau swyddogol a gorfodi

**3.**—(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r rheoliad hwn, mae'r awdurdodau lleol, y Cynulliad Cenedlaethol, y Comisiynwyr a'r Bwrdd Safonau Gwin drwy hyn yn cael eu dynodi fel yr awdurdodau sy'n gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir â'r darpariaethau Cymunedol.

(2) Rhaid i bob awdurdod lleol sicrhau bod y darpariaethau Cymunedol perthnasol yn cael eu gorfodi a'u gweithredu i'r graddau y maent yn ymwneud â manwerthu cynhyrchion yn ei ardal.

(3) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, y Comisiynwyr a'r Bwrdd Safonau Gwin sicrhau bod y darpariaethau Cymunedol perthnasol yn cael eu gorfodi a'u gweithredu i'r graddau y maent yn ymwneud â mewnforio unrhyw un o gynhyrchion y sector gwin i Gymru o drydedd wlad neu ei allforio o Gymru i drydedd wlad.

(4) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Bwrdd Safonau Gwin sicrhau bod y darpariaethau Cymunedol perthnasol yn cael eu gorfodi a'u gweithredu i'r graddau y maent yn ymwneud ag unrhyw fater sydd heb ei grybwyll ym mharagraffau (2) neu (3) uchod.

(5) Rhaid peidio â chymryd dim yn y rheoliad hwn fel pe bai'n awdurdodi'r Bwrdd Safonau Gwin neu'r Comisiynwyr i ddwyn achos ynglŷn â thramgwydd.

### Diffinio “medium dry”

**4.** At ddibenion Erthygl 14(7)(b) o Reoliad y Comisiwn (EEC) 3201/90, fel y'i diwygiwyd, sy'n nodi rheolau manwl ar gyfer disgrifio a chyflwyno gwinoedd a mystau grawnwin(**1**), gall gwin gael ei labelu a'i ddisgrifio fel “medium dry ” os oes iddo gynnwys siwgr gweddilliol nad yw'n fwy na 18 gram am bob litr pan nad yw cyfanswm cynnwys asidedd y gwin hwnnw, o'i fynegi fel gramau o asid tartarig am bob litr, yn fwy na 10 gram am bob litr islaw ei gynnwys siwgr gweddilliol.

### Amrywogaethau o winwydd

**5.** At ddibenion Erthygl 19(1) a (2) o Reoliad y Cyngor (EC) 1493/1999 ac Erthygl 20 o Reoliad y Comisiwn (EC) 1227/2000 sy'n nodi rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor 1493/1999 ar gyd-drefniadaeth y farchnad mewn gwin, o ran y potensial ar gyfer cynhyrchu(**2**), yr amrywogaethau o winwydd sydd wedi'u dosbarthu ar gyfer cynhyrchu gwin yng Nghymru yw'r rhai a bennir yn Atodlen 3, ac ymhlith y rheiny mae'r rhai na chaniateir mohonynt ar gyfer cynhyrchu gwin o safon psr yn y rhanbarthau penodedig wedi'u dynodi â seren.

(**1**) OJ Rhif L309, 8.11.90, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) 2770/98 (OJ Rhif L346, 22.12.98, t.25); nid yw'r diwygiadau'n berthnasol i Erthygl 14(7)(b) o'r Rheoliad.

(**2**) OJ Rhif L143, 16.6.2000, t.1.

### Mynegiadau daearyddol ar gyfer gwin i'r bwrdd

**6.**—(1) Yn unol ag Erthygl 51(3) o Reoliad y Cyngor (EC) 1493/1999, mae defnyddio mynegiad daearyddol i ddynodi gwin i'r bwrdd sydd wedi'i gynhyrchu mewn unrhyw ran o Gymru wedi'i wahardd oni bai bod y gwin bwrdd hwnnw wedi'i gynhyrchu—

(a) yn gyfan gwbl o un neu ragor o'r amrywogaethau o winwydd a bennir yn Atodlen 3, a

(b) o rawnwin sydd wedi'u cynaeafu yn yr uned ddaearyddol y defnyddir ei henw i ddynodi'r gwin bwrdd hwnnw yn unig.

(2) Er gwaethaf paragraff (1)(b) uchod, gall mynegiad daearyddol gael ei ddefnyddio i ddynodi gwin bwrdd a geir drwy gyfuno gwinoedd fel y'i caniateir gan Erthygl 51(2) o Reoliad y Cyngor (EC) 1493/1999 a enwyd.

(3) Ym mharagraff (1)(b) uchod ystyr "uned ddaearyddol" yw ardal y mae ei ffiniau wedi'u nodi'n fanwl gywir sydd—

(a) yn rhan o Gymru; a

(b) yn dod o fewn y diffiniad o "geographical unit which is smaller than the Member State" yn Erthygl 51(1) o Reoliad y Cyngor (EC) 1493/1999 a enwyd.

(4) Yn ddarostyngedig i Bwynt A, paragraff 2 o Atodiad VII i Reoliad y Cyngor (EC) 1493/1999, rhaid peidio â defnyddio unrhyw fynegiad daearyddol heblaw enw uned ddaearyddol fel y'i pennir yn y rheoliad hwn wrth labelu neu wrth hysbysebu gwin i'r bwrdd a gynhyrchir mewn unrhyw ran o Gymru.

### Pwerau swyddogion awdurdodedig

**7.**—(1) Ar ôl cyflwyno rhyw ddogfen sydd wedi'i dilysu'n briodol ac sy'n dangos ei awdurdod, os gofynnir iddo wneud hynny, caiff swyddog awdurdodedig fynd ar unrhyw adeg resymol i unrhyw dir neu gerbyd (heblaw unrhyw dir neu gerbyd sy'n cael eu defnyddio yn annedd yn unig), er mwyn darganfod a oes unrhyw dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn yn cael neu wedi cael ei gyflawni neu a oes unrhyw dramgwydd o dan Reoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) 1993, 1994, 1995 neu 1996 wedi'i gyflawni.

(2) Caiff swyddog awdurdodedig sydd wedi mynd i unrhyw dir neu gerbyd yn unol â pharagraff (1) uchod, at y diben a bennir yn y paragraff hwnnw neu er mwyn sicrhau tystiolaeth o unrhyw dramgwydd o'r fath y mae ganddo reswm dros gredu ei fod yn cael ei gyflawni, y gall fod yn cael ei gyflawni, neu ei fod wedi'i gyflawni neu y gall fod wedi'i gyflawni—

(a) archwilio unrhyw ddeunyddiau neu eitemau y deuir o hyd iddynt yn y tir neu'r cerbyd hwnnw neu arnynt;

(b) yn ddarostyngedig i baragraff (5) isod, archwilio unrhyw gofrestr, cofnod neu ddogfen briodol—

(i) y mae'n ofynnol i unrhyw berson eu cadw o dan unrhyw ddarpariaeth Gymunedol berthnasol, neu

(ii) sydd ym meddiant neu o dan reolaeth unrhyw berson,

a chaiff gymryd copïau o unrhyw gofrestr, cofnod neu ddogfen o'r fath, neu o unrhyw eitem mewn unrhyw gofrestr, cofnod neu ddogfen o'r fath ac os oes unrhyw gofrestr, cofnod neu ddogfen o'r fath yn cael eu cadw drwy gyfrwng cyfrifiadur, caiff fynd at unrhyw gyfrifiadur ac unrhyw offer neu ddeunyddiau cysylltiedig sy'n cael neu sydd wedi cael eu defnyddio mewn cysylltiad â'r gofrestr honno, y cofnod hwnnw neu'r ddogfen honno, a'u harchwilio ac edrych i weld sut y maent yn gweithio, a'i gwneud yn ofynnol i gofrestr, cofnod, dogfen neu eitem o'r fath gael eu cyflwyno mewn ffurf a all gael ei chymryd i ffwrdd;

(c) yn ddarostyngedig i baragraff (5) isod, cipio a chadw unrhyw gofrestr, cofnod, dogfen neu eitem o'r fath y mae ganddo reswm dros gredu y gall fod eu hangen fel tystiolaeth mewn achos o dan y Rheoliadau hyn;

(ch) llunio rhestr o gynhyrchion ac o unrhyw beth a all gael ei ddefnyddio i baratoi cynhyrchion; a

(d) prynu unrhyw gynnyrch ac unrhyw beth a all gael eu defnyddio i baratoi unrhyw gynnyrch neu gymryd samplau ohonynt.

(3) Caiff swyddog awdurdodedig sydd wedi sicrhau sampl o unrhyw gynnyrch ddadansoddi neu archwilio'r sampl honno neu drefnu ei dadansoddi neu ei harchwilio.

(4) Caiff swyddog awdurdodedig sy'n mynd i unrhyw dir neu gerbyd yn rhinwedd y rheoliad hwn fynd ag unrhyw bersonau eraill gydag ef y mae'n credu eu bod yn angenrheidiol.

(5) Ni fydd gan swyddog awdurdodedig hawl o dan baragraff (2)(b) neu (c) uchod i archwilio, copïo, cipio neu gadw unrhyw gofnod neu ddogfen i'r graddau y mae'r cofnod neu'r ddogfen—

(a) yn eitem sy'n destun braint gyfreithiol o fewn ystyr adran 10 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (**3**),

(b) yn ddeunydd eithriedig o fewn ystyr adran 11 o'r Ddeddf honno, neu

(c) yn ddeunydd gweithdrefn arbennig o fewn ystyr adran 14 o'r Ddeddf honno.

## Rheoli symud

**8.**—(1) Pan fydd swyddog awdurdodedig yn archwilio unrhyw gynnyrch sector gwin, caiff wahardd ei symud os oes ganddo reswm dros gredu bod tramgwydd wedi'i gyflawni, wrthi'n cael ei gyflawni neu'n debyg o gael ei gyflawni mewn perthynas ag ef drwy dorri unrhyw ddarpariaeth Gymunedol berthnasol y cyfeirir ati yng ngholofnau 1 neu 2 o Ran I, II, III, V neu IX o Atodlen 2, neu drwy fethu â chydymffurfio â hi, a bod yna risg neu ei bod yn debyg y bydd yna risg i iechyd y cyhoedd mewn perthynas â'r cynnyrch hwnnw neu fod y cynnyrch hwnnw wedi'i drin yn dwyllodrus neu'n debyg o gael ei drin yn dwyllodrus.

(2) Rhaid i swyddog sy'n arfer y pŵ er a roddir gan baragraff (1) uchod, heb oedi, roi hysbysiad ysgrifenedig i'r person y mae'n ymddangos iddo ei fod â gofal y cynnyrch sector gwin o dan sylw—

(a) yn pennu'r cynnyrch sector gwin y mae'r pŵ er wedi'i arfer mewn perthynas ag ef;

(b) yn datgan na ellir symud y cynnyrch sector gwin heb gydsyniad ysgrifenedig swyddog awdurdodedig;

(c) yn pennu'r ddarpariaeth Gymunedol y mae ganddo reswm dros gredu bod tramgwydd wedi'i gyflawni, wrthi'n cael ei gyflawni neu'n debyg o gael ei gyflawni mewn perthynas â hi; ac

(ch) yn pennu a yw o'r farn y byddai'n ymarferol cymryd camau i'w berswadio nad oes ganddo reswm dros y gred honno mwyach ac, os felly, beth ddylai'r camau hynny fod.

(3) Pan fydd hysbysiad a ddisgrifir ym mharagraff (2) uchod yn cael ei roi gan swyddog awdurdodedig o'r Bwrdd Safonau Gwin, rhaid i'r hysbysiad hwnnw gynnwys gwybodaeth hefyd am hawl y derbynnydd, a roddir gan reoliad 10, i gael adolygu rhoi'r hysbysiad hwnnw, ac ynghylch sut y gellir arfer yr hawl honno, ac effaith arfer yr hawl honno.

(4) Os nad yw'n ymddangos i'r swyddog mai'r person y mae'n rhoi'r hysbysiad iddo yw perchennog y cynnyrch sector gwin o dan sylw nac ychwaith ei fod yn asiant, yn gontractiwr neu'n gyflogai i'r perchennog, rhaid i'r swyddog wneud ei orau glas i dynnu sylw person o'r fath at gynnwys yr hysbysiad hefyd cyn gynted â phosibl.

(**3**) 1984 p.60.

(5) Caiff swyddog awdurdodedig osod labeli sy'n rhybuddio bod y pŵ er wedi'i arfer ar unrhyw gynnyrch sector gwin y mae'r pŵ er a roddir gan baragraff(1) uchod wedi'i arfer mewn perthynas ag ef, neu ar unrhyw gynhwysydd y mae'r cynnyrch sector gwin wedi'i bacio ynddo.

(6) Rhaid i swyddog awdurdodedig sydd wedi'i fodloni bod y camau a bennir yn yr hysbysiad o dan baragraff 2(ch) uchod wedi'u cymryd ddileu'r gwaharddiad ar symud a roddwyd yn unol â pharagraff (1) uchod ar unwaith.

**Cydsyniad ar gyfer symud**

**9.**—(1) Caiff swyddog awdurdodedig roi cydsyniad ysgrifenedig, ar unrhyw adeg, i symud cynnyrch sector gwin a reolir.

(2) Pan wneir cais, rhaid i swyddog awdurdodedig roi cydsyniad ysgrifenedig ar gyfer symud cynnyrch sector gwin a reolir os yw ef, neu swyddog awdurdodedig arall, wedi cael ymrwymiad ysgrifenedig i'r perwyl—

(a) y caiff y cynnyrch sector gwin ei symud i le a gymeradwywyd gan swyddog awdurdodedig; a

(b) na chaiff y cynnyrch sector gwin ei symud o'r lle hwnnw heb gydsyniad ysgrifenedig swyddog awdurdodedig.

(3) Rhaid i gydsyniad a roddir gan swyddog awdurdodedig o dan y rheoliad hwn—

(a) pennu'r cynnyrch sector gwin y mae'n ymwneud ag ef; a

(b) datgan bod y cynnyrch sector gwin yn parhau i fod o dan reolaeth.

(4) Rhaid i swyddog awdurdodedig o'r Bwrdd Safonau Gwin y gofynnwyd iddo roi cydsyniad o dan y rheoliad hwn, ac sy'n gwrthod gwneud hynny, gyfleu'r gwrthodiad hwnnw yn ysgrifenedig ynghyd â hysbysiad ysgrifenedig o'r hawl, a roddir gan reoliad 10, i gael adolygu'r gwrthodiad hwnnw, ac esboniad ynghylch sut y gellir arfer yr hawl honno ac effaith arfer yr hawl honno.

**Adolygu hysbysiadau a gwrthodiadau ar symud cynhyrchion sector gwin**

**10.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys os oes swyddog awdurdodedig o'r Bwrdd Safonau Gwin—

(a) wedi rhoi hysbysiad o dan reoliad 8(2) i berson y mae'n ymddangos iddo ei fod â gofal cynnyrch sector gwin; neu

(b) wedi gwrthod rhoi cydsyniad o dan reoliad 9 ar gyfer symud cynnyrch sector gwin a reolir.

(2) Caiff person y mae'r hysbysiad neu'r gwrthodiad wedi'i roi iddo wneud cais ysgrifenedig i Brif Weithredwr y Bwrdd Safonau Gwin iddo yntau adolygu rhoi'r hysbysiad neu'r gwrthodiad.

(3) Pan gaiff Prif Weithredwr y Bwrdd Safonau Gwin gais am adolygu hysbysiad neu wrthodiad, rhaid iddo adolygu'r hysbysiad neu'r gwrthodiad a chyfleu ei benderfyniad ar yr adolygiad o fewn 14 diwrnod ar ôl cael y cais.

(4) Os bydd person yn anfodlon ar benderfyniad Prif Weithredwr y Bwrdd Safonau Gwin ar adolygiad caiff wneud cais ysgrifenedig i Gadeirydd y Bwrdd Safonau Gwin am adolygiad pellach gan y Bwrdd Safonau Gwin o roi'r hysbysiad neu o'r gwrthodiad.

(5) Pan gaiff gais o'r fath, os yw wedi'i fodloni nad oes modd cyfiawnhau penderfyniad y swyddog awdurdodedig i roi'r hysbysiad neu i wrthod y cydsyniad, rhaid i'r Bwrdd Safonau Gwin beri tynnu'r hysbysiad yn ôl neu, yn ôl fel y digwydd, roi cydsyniad ar gyfer symud y cynnyrch sector gwin a reolir o dan sylw.

(6) Bydd y weithdrefn a'r cworwm ar gyfer cyfarfod o'r Bwrdd Safonau Gwin sy'n ystyried cais o dan y rheoliad hwn yn gyfryw ag y bydd yn penderfynu arnynt.

### Swyddog awdurdodedig yn gweithredu'n ddidwyll

**11.**—(1) Ni fydd swyddog awdurdodedig yn atebol yn bersonol mewn perthynas ag unrhyw weithred a gyflawnir wrth arfer neu drwy arfer honedig o'r Rheoliadau hyn ac o fewn cwmpas ei gyflogaeth—

(a) os bu iddo, mewn perthynas â gweithred a gyflawnwyd ganddo, gyflawni'r weithred honno gan gredu'n onest fod y Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol iddo ei chyflawni neu'n rhoi pŵ er iddo ei chyflawni, a

(b) os oedd yn credu'n onest, mewn perthynas â gweithred gan berson a oedd yn cyd-fynd ag ef ac yn gweithredu o dan ei gyfarwyddiadau, fod y Rheoliadau hyn yn rhoi pŵ er iddo gyfarwyddo'r person hwnnw i'w chyflawni.

(2) Ni fydd person sy'n cyd-fynd â swyddog awdurdodedig yn atebol yn bersonol mewn perthynas ag unrhyw weithred a gyflawnir ganddo wrth arfer neu drwy arfer honedig i'r Rheoliadau hyn—

(a) os cyflawnodd y weithred honno ar gyfarwyddiadau'r swyddog awdurdodedig, a

(b) os oedd yn credu'n onest fod y Rheoliadau hyn yn rhoi pŵ er i'r swyddog awdurdodedig roi'r cyfarwyddiadau hynny iddo.

(3) Rhaid peidio â dehongli dim ym mharagraff (1) uchod fel pe bai'n rhyddhau awdurdod gorfodi rhag unrhyw rwymedigaeth mewn perthynas â gweithredoedd ei swyddogion awdurdodedig.

(4) Os oes achos wedi'i ddwyn yn erbyn swyddog awdurdodedig mewn perthynas â gweithred a gyflawnwyd ganddo wrth arfer neu drwy arfer honedig o'r Rheoliadau hyn a bod yr amgylchiadau'n golygu nad oes ganddo hawl gyfreithiol i'w gwneud yn ofynnol i'r awdurdod gorfodi ei indemnio, er hynny, fe gaiff yr awdurdod ei indemnio yn erbyn y cyfan neu ran o unrhyw iawndal a chostau, os yw'r awdurdod hwnnw wedi'i fodloni ei fod yn credu'n onest fod y weithred y cwynir amdani o fewn cwmpas ei gyflogaeth a bod ei ddyletswydd o dan y Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol iddo ei chyflawni neu'n rhoi hawl iddo ei chyflawni.

### Y pŵ er i fynnu dadansoddiad neu archwiliad

**12.**—(1) Os yw'n credu bod hynny'n addas at ddibenion yr achos, caiff y llys y dygir unrhyw achos ger ei fron ynglyn â thramgwydd o dan y Rheoliadau hyn beri i unrhyw eitem sy'n destun yr achos, ac sydd, os yw eisoes wedi'i dadansoddi neu wedi'i harchwilio, yn gallu cael ei dadansoddi neu ei harchwilio ymhellach, gael ei hanfon at ddadansoddydd bwyd neu archwilydd bwyd, a fydd yn gwneud unrhyw ddadansoddi neu archwilio sy'n briodol gan drosglwyddo i'r llys dystysgrif o ganlyniad y dadansoddi neu'r archwilio, a chaiff costau'r dadansoddi neu'r archwilio eu talu gan yr erlynydd neu gan y person a gyhuddir yn unol â gorchymyn y llys.

(2) Mewn achos y dygir apêl ynddo, os nad oes camau wedi'u cymryd o dan baragraff (1) o'r rheoliad hwn mewn perthynas ag eitem benodol, bydd darpariaethau paragraff (1) yn gymwys ynglŷn â'r eitem honno mewn perthynas â'r llys sy'n gwrando'r apêl.

(3) Rhaid i unrhyw dystysgrif o ganlyniadau dadansoddiad neu archwiliad sydd, yng nghwrs achos, yn cael ei throsglwyddo gan ddadansoddydd bwyd neu archwilydd bwyd o dan y rheoliad hwn, gael ei llofnodi gan y dadansoddydd bwyd hwnnw neu'r archwilydd bwyd hwnnw, ond gall y dadansoddi neu'r archwilio gael ei wneud gan unrhyw berson sy'n gweithredu o dan gyfarwyddwyd y person sy'n llofnodi'r dystysgrif.

(4) Mewn unrhyw achos o dan y Rheoliadau hyn, bydd trosglwyddo—

(a) dogfen sy'n ymhonni bod yn dystysgrif a roddwyd gan ddadansoddydd bwyd neu archwilydd bwyd; neu

(b) dogfen a roddwyd i un o'r partïon gan y parti arall fel pe bai'n gopi o dystysgrif o'r fath, i'r llys o dan y rheoliad hwn, neu ei chyflwyno gan un o'r partïon yn dystiolaeth ddigonol

o'r ffeithiau a ddatgenir ynddi oni bai bod unrhyw barti i'r achos yn ei gwneud yn ofynnol i'r person a lofnododd y dystysgrif gael ei alw yn dyst.